# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 27 Mehefin, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Dilwyn Morgan,<br>Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Diogelu a rôl y Panel Strategol Diogelu |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r trefniadau presennol o ran diogelu ac yn benodol cyfrifoldeb y gorfforaeth i ymarfer ei ddyletswydd gyffredinol i ddiogelu wedi bod yn eu lle ers oddeutu pedair blynedd.

1.2 Yn ystod y cyfnod yma, mae'n deg dweud bod yna gynnydd da wedi ei wneud o ran yr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion diogelu ar draws y Cyngor. Yn ogystal mae diogelu wedi bod yn flaenoriaeth strategol o fewn y Cynllun Strategol 2012-17 ac yn cael y sylw cyson yn sgil hyn gan y Cabinet.

1.3 Mae'n amserol mae'n debyg ar gychwyn cabinet newydd, i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau presennol. Mae'n amserol hefyd i wneud hyn gan fod yna nifer o newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys newidiadau o ran trefniadau rhanbarthol, a gofynion ychwanegol wedi digwydd yn ystod y cyfnod sydd wedi pasio ers sefydlu'r trefniadau presennol.

1.4 Bwriad yr adroddiad hwn felly yw ceisio adolygu'r trefniadau llywodraethol a hefyd sicrhau bod trefniadau adrodd ac atebolrwydd yn gwbl glir ar gyfer y dyfodol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Cymeradwyo ehangu gwaith y Panel Strategol Diogelu i gynnwys gofynion ar yr Awdurdod sydd yn ymwneud a gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

2.2 Dirprwyo'r hawl i'r Panel Strategol Diogelu i adolygu a chytuno newid angenrheidiol i'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn deillio o fabwysiadu'r newid i'r cylch gorchwyl.

**3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1 Er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion cadarn yn eu lle o fewn y Cyngor.

**4. Y GOFYNION DEDDFWRIAETHOL**

4.1 Dyma'r prif ofynion deddfwriaethol sydd angen eu hystyried wrth edrych ar y maes diogelu: -

1. Cyfrifoldeb y Gorfforaeth i Ymarfer ei ddyletswyddau cyffredinol tuag at ddiogleu
2. Gofynion statudol gwasanaethau cymdeithasol
3. Gofynion gwrthderfysgaeth (Swyddfa Gartref) (CONTEST)
4. Gofynion caethwasiaeth fodern
5. Gofynion cynhwysiad cymdeithasol
6. Gofynion Trais yn y Cartref

4.2 O ran sefydlu'r trefniadau presennol, y bwriad oedd creu trefniadau a fyddai'n ymateb a sicrhau fod gan y Cyngor trefniadau diogelu corfforaethol yn dilyn adroddiad Sir Benfro. Yn ogystal bydd yn hefyd derbyn gwybodaeth o bwys gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.3 Pan sefydlwyd y trefniadau presennol nid oedd y gofynion o ran gwrthderfysgaeth a radicaleiddio na chwaith caethwasiaeth fodern mor amlwg. Ni ystyriwyd chwaith yr angen i ddod a materion trais yn y cartref, nac ychwaith cynhwysiad cymdeithasol o fewn yr agenda diogelu. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am y materion hyn ac mae'r Bartneriaeth yma yn ofyn deddfwriaethol o dan ofynion y Swyddfa Gartref. Mae'r PDC (neu Community Safety Partnership) yn bartneriaeth ar draws Môn a Gwynedd ac yn bartneriaeth aml asiantaeth. Felly ar y pryd, gwelwyd bod trefniadau yn eu lle ar gyfer y materion hyn yn ogystal.

4.4 Beth sydd wedi dod yn fwy amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf yw bod y gofynion o ran y meysydd uchod (4.1)yn gorgyffwrdd a bod natur y meysydd yn cael eu hystyried yn faterion diogelu ehangach.

4.5 Beth hefyd sydd wedi dod yn amlwg yw'r angen am sylw penodol y gorfforaeth ar nifer o'r materion hyn, ac nad oes fforwm amlwg i drafod materion sydd angen i'r Cyngor eu gweithredu neu fod yn ymwybodol ohonynt.

4.6 Felly casgliad yw bod cyfle i fanteisio ac ehangu maes gwaith a chyfrifoldeb y Panel Strategol Diogelu i gynnwys cyfrifoldeb dros y gofynion o'r gorfforaeth sydd yn ymwneud a gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol. Y manteision o wneud hyn fyddai:

- osgoi creu trefniadau newydd
- sicrhau bod gan un Panel y gorolwg o'r agenda ehangach

- gwneud y defnydd gorau o'r Grŵp Gweithredol Diogelu a'r swyddogion sydd yn bencampwyr
- osgoi cymhlethu'r maes drwy gydlynu negeseuon a hyfforddiant i staff ac aelodau
- gwneud y cysylltiadau rhwng y gofynion ac osgoi dyblygu a dryswch

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

5.1 Dim i'w nodi.

**6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

6.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
O ystyried swyddogaethau a dull gweithredu Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredu Diogelu rwy'n fodlon fod y newidiadau a cynigir i'r cylch gorchwyl yn rhesymegol ac yn cynnig cyfrwng priodol i ddarparu trosolwg o'r meysydd statudol ychwanegol yma.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan yr awdur na fyddai'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiadau ariannol newydd, a felly nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhellion.

6.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

6.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

6.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu

CYNGOR GWYNEDD